

## Ysgrifennu ar gyfer y Clarinét



O ran technegau ymestynol, y clarinét yw un o'r offerynnau mwyaf hyblyg. Isod ceir arweiniad i'r technegau mwyaf cyffredin, ond yn gyntaf ceir ychydig o nodiadau cyffredinol.

### 1. Nodiadau cyffredinol

Gellir ysgrifennu nodau sy'n ymestyn o E isel i C uchel. Mae'r nodau isel yn swno'n dywyll ac yn feddal; mae'r nodau yn y canol yn gynnes, cyfoethog a melodig; ac mae'r nodau uchel yn fain a threiddiol. Mae rhai nodau rhwng y cwmpawd isel a chanol yn swno ychydig llai eglur - dylid osgoi'r nodau hyn os yn bosibl, gan fod gwahaniaeth sylweddol rhwng ansawdd y nodau hyn, a'r rhai bob ochr iddynt.

N.B Clarinets NEVER use the bass clef - we like ledger lines!

Low register

Woolly register (best avoided) Middle register High register

NB Use high notes sparingly - they are very tiring! It gets hard to play quiet past a high G in this register.

The image shows musical notation for a clarinet. It features a treble clef and a key signature of one sharp (F#). The notation is divided into three registers: 'Low register' (notes on ledger lines), 'Middle register' (notes on the staff), and 'High register' (notes above the staff). A note in the 'Woolly register' is circled and labeled as 'best avoided'. A note in the 'High register' is circled and labeled with a warning: 'NB Use high notes sparingly - they are very tiring! It gets hard to play quiet past a high G in this register.'

Gall y clarinét ddarllen a chwarae ystod eang o arddulliau ac ynganiadau. Arbrofwch i weld sawl sain y gallwch gael yr offerynnwr i'w cynhyrchu!

Mae'r clarinét yn hoff iawn o linellau hir 'legato'. Gall llithro lawr yn effeithiol dros gyfwng mawr fod yn anodd, ond nid yw llithro i fyny, na neidio o gwmpas yn 'staccato' yn broblem.

### 2. Technegau ymestynol

(Nid oes nodiant safonedig ar gyfer y rhai a nodir gyda seren \*)

#### Seiniau aer \*

Hawdd anghofio y gall offerynnwyr chwyth greu sain drwy chwythu lawr yr offeryn, heb chwarae unrhyw nodau penodol. Cofiwch fod hyn yn effaith tawel iawn, ac yn anodd ei glywed uwchben deinameg **mp**.

Gwell yw nodi seiniau aer fel **ff** er mwyn iddynt gael eu clywed, a chofiwch ddweud os mai anadlu mewn neu allan y dylai'r offerynnwr wneud.

**Allegro**  
*breathe into instrument without playing a note*

### Glissando

Tra bod seiniau aer yn gynnig a thyner, mae 'glissandi' yn bell o hyn! Glissandi cyflym a chryf sydd orau ar y clarinét, ac maent yn cael eu creu gyda'r bysedd i ffwrdd o'r allweddi. Gall 'glissando' weithio'n dawel, ond byddwch yn ofalus gan fod hyn yn anodd ei gyflawni.

NB Glissandi on notes below the D are impossible, those on notes above the E are unreliable

### Multiphonics \*

Dyma effaith wych, ond gall fod yn annibynadwy. Ceir gwybodaeth fanwl am 'multiphonics' mewn llyfrau ac ar wefannau gwahanol, ond yn gyffredinol gwell ei hystyried mwy fel sain nac effaith i greu cordiau penodol. Mae bron yn amhosibl chwarae 'multiphonics' yn dawel. Y peth gorau o hyd yw ymgynghori a'r offerynnwr - gall 'multiphonics' amrywio o un offeryn i'r llall.

### Effeithiau Offer Taro

Gall y clarinét greu effaith heb nodyn penodol drwy daro'r allweddi gyda'r bysedd. Dyma effaith gymharol dawel eto, a rhaid ei farcio yn gryfach o ran deinameg.

Andantino

*p* *mf* *pp* sub. *f* key clicks *tr* key rattle (quasi castanets)

### Cwarter tŏn

Er nad techneg ymestynnol yw cwarter tŏn yn dechnegol, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml iawn! Gan fod y clarinét wedi ei gynllunio i chwarae mewn hanner tonau nid oes byseddu safonedig yn bodoli ar gyfer unrhyw gwarter tŏn. Er hyn fe all offerynnwr dyfeisgar ddarganfod byseddu sy'n gweithio. Cofiwch nad oes, fel arfer, modd defnyddio byseddu cwarter tŏn, rhwng yr E isaf a'r G tri nodyn uwch ei ben.

Adagio

*p* espress. Quarter sharp Three-quarter flat Three-quarter sharp Quarter flat

### Canu a chwarae \*

Yn anaml iawn y defnyddir y dechneg hon, a phrin y dylid ei ddefnyddio hefyd gan ei fod yn flinedig i'r perfformiwr. Cofiwch fod yn rhaid i'r offerynnwr ganu mewn wythfed gwahanol i'r hyn a nodir, ac mae hyn yn dibynnu ar ei llais. Cofiwch nad canwr yw'r offerynnwr, felly peidiwch a bod yn rhy uchelgeisiol!

Tempo di Waltzer

*mp* *p* *f* *p* sing *mf*

### Timbral trill \*

Yn union fel y 'bisbigliando' ar y delyn, dyma dril sy'n defnyddio byseddu gwahanol ar yr un nodyn. Unwaith eto, nid yw pob nodyn yn bosibl, ond mae hwn yn effaith sy'n ddibynadwy ar bron bob deinameg. Isod, cewch weld y nodau sy'n gweithio orau (ar y traw a ysgrifennir), yn ogystal â'r ffordd fwyaf cyffredin i nodi hyn.

Most common notation

(all notes inclusive) *pp* timbral trill

N.B. It is best to explain the meaning of 'timbral trill' in a prefatory note to your score, as not everyone may be familiar with the term